Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505 / 029 2089 8600
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod - 09.15 - 09.30**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

### 2. Ymchwiliad i addasiadau yn y cartref - sesiwn dystiolaeth 14 (09.30 - 10.15) (Tudalennau 1 - 6)

CELG(4)-11-13 - Papur 1
Llywodraeth Cymru

Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio
Alyn Williams, Pennaeth Tîm Tai'r Sector Preifat
Huw McLean, Tîm Tai'r Sector Preifat

**Egwyl - 10.15 - 10.25**

### 3. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Tai ac Adfywio (10.25 - 11.30) (Tudalennau 7 - 13)

CELG(4)-11-13 - Papur 2

Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio
John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

## 4. Papurau i'w nodi (11.30 - 11.35)

**Ymchwiliad i addasiadau yn y cartref - Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru** (Tudalennau 14 - 19)
CELG(4)-11-13 - Papur 3

**Gohebiaeth yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth** (Tudalennau 20 - 21)
CELG(4)-11-13 - Gohebiaeth breifat
CELG(4)-11-13 - Gohebiaeth breifat

**Papur 1**

**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**

**Tystiolaeth Ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Addasu Cartrefi**

1. Rwy'n croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor a byddaf yn cyfeirio at ei gylch gorchwyl yn y drefn y'u nodwyd yn llythyr y Cadeirydd dyddiedig 11 Rhagfyr 2012.

- *Pam mae amrywiadau arwyddocaol o hyd yn yr amser y mae'n ei gymryd i gyflenwi cymhorthion ac addasiadau wedi'u hariannu gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ledled Cymru;*

2. Roedd adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan CEL Transform ym mis Hydref 2010, a gomisiynwyd i ymateb i Adroddiad 2009 y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, yn cyflwyno darlun cadarnhaol ar y cyfan a daeth i'r casgliad y buasai "**gwelliant cyson ac arwyddocaol o ran yr amser roedd yn ei gymryd ar gyfartaledd i brosesu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ledled Cymru"**. Hefyd roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y ffaith fod mwy o bwyslais ar ansawdd y gwasanaeth oedd yn cael ei roi gyda mwy o sylw'n cael ei roi i gael "**cydbwysedd rhwng cyflymder, cyfranogi/rheolaeth y cwsmer ac ansawdd y canlyniad".**

3. Er fy mod yn cydnabod bod y sefyllfa'n amrywio ledled Cymru, ar y cyfan, mae amseroedd cyflenwi ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella'n gyffredinol ac maen nhw'n dal i wella. Y duedd gyffredinol ledled Cymru yw bod y cyflenwi'n gyflymach. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i gyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fel y'i mesurir gan y Dangosydd Perfformiad sefydledig (h.y. nifer y diwrnodau a gymer i gwblhau Grant Cyfleuster i'r Anabl) yn dangos gwelliant o 45% ers 2006. Mae'r amser cyfartalog wedi lleihau o 593 diwrnod i lawr i 325 diwrnod. Golyga hyn fod yr amser cyfartalog i gwblhau Grant Cyfleuster i'r Anabl ymhell o fewn y terfyn amser statudol a nodir yn neddfwriaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996).

4. Cafodd y Dangosydd Perfformiad ei hun:

   - ei ddatblygu ar y cyd ag ymarferwyr o'r awdurdodau lleol;
   - mae'n mesur y broses o'r dechrau i'r diwedd, sy'n adlewyrchu profiad y cleient; ac
   - mae'n annog awdurdodau lleol i gymryd cyfrifoldeb corfforaethol dros gyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn hytrach nag ar lefel adrannau unigol.

5. Yn ogystal, mae angen ei gwneud hi'n glir hefyd nad yr awdurdodau lleol sy'n achosi'r oedi bob amser naill ai wrth asesu anghenion person neu wrth brosesu ceisiadau am grantiau. Mae achosion lle'r achoswyd oedi gan y rhai sy'n derbyn y grantiau eu hunain oherwydd iddyn nhw gymryd

amser ychwanegol i benderfynu a fyddent yn cael y gwaith wedi'i wneud oherwydd y tarfu sydd ynghlwm wrtho. Mae oedi'n digwydd hefyd pan fydd person yn penderfynu peidio â defnyddio adeiladwr wedi'i gymeradwyo y mae'r awdurdod lleol yn ei awgrymu ac yn cymryd amser i ddod o hyd i'w gontractwr ei hun i wneud y gwaith sydd ei angen. Gan fod y llinell amser yn dechrau pan gaiff yr ymholiad cyntaf ei wneud, mae'r oedi hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfanswm yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r gwaith. Mae angen inni edrych yn gytbwys ar y mater hwn a chydnabod y gwaith caled y mae'r awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i wneud i ostwng yr amserau aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

6. At hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fenter untro yn 2011-12 ar ffurf *Grant Byw'n Annibynnol*. Sicrhawyd £1.5 miliwn i dalu am addasiadau i bobl a oedd naill ai ar restr aros am Grant Cyfleuster i'r Anabl neu a oedd ag angen gwaith wedi'i wneud er mwyn dychwelyd adref o'r ysbyty. Cyflenwyd y grant drwy Gofal a Thrwsio yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, nid oedd yn dibynnu ar brawf modd ac roedd hyd at uchafswm o £10,000 ar gael. Oherwydd i'r grant fod mor llwyddiannus sicrhawyd £1 filiwn arall i'w ariannu ar ddiwedd 2012-13. Mae llwyddiant y grant a'r nifer sydd wedi manteisio arno wedi gwneud inni ystyried sut gellid ei ariannu yn y dyfodol. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn edrych arno yng nghyd-destun adolygiad y gwasanaethau addasu a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn ar Dai'r llynedd.

- *A oes digon o gynnydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar addasiadau cartrefi;*

***Mân Addasiadau***

7. Mae'r cynnydd wedi bod yn dda dros amryw o feysydd gan gynnwys cyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl y cyfeirir atynt uchod. Hefyd gwnaed cynnydd arwyddocaol o ran cyflenwi mân addasiadau. Mae llawer mwy o eitemau syml yn cael eu darparu bellach y tu hwnt i system fwy cymhleth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl statudol ac mae hyn yn arfer gyffredin ymysg mwyafrif yr awdurdodau lleol. Argymhellodd adroddiad annibynnol 2005 ar gyflenwi addasiadau a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl mai dyma'r ffordd i fynd ati.

***Arfer dda***

8. Mae hi'n gwbl amlwg fod digonedd o wybodaeth arfer dda ar gael i awdurdodau lleol, a chadarnhaodd yr adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan CEL Transform ym mis Hydref 2010 mai dyna fel y mae hi. Yn ogystal â chanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru (Atodiad D newydd i Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 20/02), mae gennym yr Adroddiadau Meincnodi, a gafodd eu diwygio gan CLILC yn 2009. Hefyd mae awdurdodau lleol yn cyfnewid gwybodaeth yn anffurfiol a thrwy ddulliau mwy ffurfiol fel Panel Technegol Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio

gydag awdurdodau lleol a chyrff cynrychioliadol eraill i sicrhau bod enghreifftiau o arfer dda'n cael eu cylchredeg yn eang a'u cyfeirio'n effeithlon.

***Cyhoeddusrwydd***

9. Mae'n ymddangos fel petai'r rhai sy'n derbyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn fodlon iawn ond mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth yn cyrraedd pawb a allai elwa arno a dyma ran o'r rheswm pam rydym yn darparu arian craidd ar gyfer gwasanaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Mae ansawdd y wybodaeth y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi fel y prif asiantau cyflenwi yn hanfodol. Mae'n galondid gweld yr enghreifftiau o waith da fel y sioeau teithiol a digwyddiadau cyhoeddusrwydd fel wythnos Gofal a Thrwsio, y digwyddodd yr olaf o'r rhain yn gymharol ddiweddar. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y mynediad hwn i wybodaeth yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol sydd ohoni. Codwyd ymwybyddiaeth am y gwasanaeth sydd ar gael hefyd gan y daflen a gynhyrchwyd ar y cyd gan Age Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol yn benodol i Gymru. Roedd y daflen yn ychwanegu at y wybodaeth a gyhoeddwyd gan Age UK yn ehangach.

***Cofrestri Tai a Addaswyd***

10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd na fyddai un gofrestr tai Genedlaethol yn fuddiol. Eisoes mae tuedd gynyddol tuag at gael cofrestri tai cyffredin o fewn pob awdurdod lleol ar gyfer mynediad i dai cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i sefydlu Cofrestri Tai Hygyrch, sy'n cynnwys cronfeydd data am bobl ac eiddo. Eu prif amcan yw helpu i gyfateb yr eiddo sydd ar gael ag anghenion pobl ag anableddau sy'n chwilio am dai. Yn ogystal, mae potensial iddyn nhw alluogi'r awdurdod i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol (h.y. yr eiddo sydd wedi'i addasu), osgoi gwario diangen ar addasiadau a chynorthwyo wrth gynllunio tai yn y dyfodol. Mae canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar ddyrannu tai yn argymell gwneud hyn gan fod mwy o botensial i gynyddu cyfathrebu a mynediad i dai wedi'u haddasu o fewn y gymuned agos.

***Gwasanaethau Therapyddion Galwedigaethol***

11. Mae'n galondid gweld bod nifer y therapyddion galwedigaethol wedi codi yng Nghymru ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad yn 2009. Mae gwybodaeth ar wefan StatsCymru yn dangos bod y therapyddion cyfwerth ag amser llawn wedi codi o 216 yn 2009-10 i 242 yn 2011-12. Hefyd mae gan rai awdurdodau lleol therapyddion galwedigaethol penodol i gartrefi ac mae hyn wedi'u galluogi i gyflymu'r prosesau asesu a cheisiadau am Grantiau Cyfarpar i'r Anabl.

***Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tai***

12. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i roi cymorth ar gyfer cynnal a chadw cartrefi o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a

Lloegr) 2002. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi polisi adnewyddu tai sy'n nodi pa gymorth sydd ar gael i berchnogion tai yn ei ardal. Mae'r polisïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ac maen nhw ar gael ar ffurf crynodeb o ofyn amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd yn sôn am fater cynnal a chadw cartrefi.

***Ariannu***

13. Mae'r ariannu ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi aros yn gymharol sefydlog. Yn 2011-12 roedd yn £34.9 miliwn ledled Cymru ac roedd yn cynrychioli bron i ddau draean yr holl arian a wariwyd ar adnewyddu'r sector preifat yn ystod 2011-12. Mae'n rhaid gweld unrhyw gynigion i wella gwasanaethau addasu yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Nid yw'r arian ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'u neilltuo ac mae'n dod o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol heb ei neilltuo'r awdurdodau lleol.

- *Pa effaith y mae llai o adnoddau ar gyfer tai'n debygol o'i chael ar ddarparu addasiadau cartrefi;*

14. Mae'n bwysig nodi nad Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cyllidebau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ledled Cymru. Mater i'r awdurdodau lleol unigol yw pennu faint i'w ddyrannu at ddibenion addasu. Mae'r Grantiau'n dal i fod yn hawl gorfodol ond gyda mwy o bwysau ar gyllidebau, bydd yn rhaid i wariant ar addasiadau gystadlu hyd yn oed yn fwy â blaenoriaethau eraill yr awdurdod lleol. Fel hawl gorfodol, bydd gwariant ar y Grantiau wedi'i warchod i ryw raddau ond efallai bydd effaith ar weithgareddau eraill fel grantiau i wella cartrefi a ffurfiau eraill ar gymorth i berchnogion tai. Gallai fod effaith ar restrau aros oherwydd bod gwasgfa ar adnoddau a bydd yn rhaid rheoli'r rhain yn ofalus. O dan yr amgylchiadau economaidd presennol bydd hi'n anochel fod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar eu dyletswyddau statudol a bydd hyn yn cynnwys darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

15. Mae hyn yn rhan o'r rheswm pam mae arian ychwanegol ar gyfer Grant Byw'n Annibynnol wedi'i ddarparu fel y nodwyd uchod. Cyflwynwyd y grant ar sail untro ond rydyn ni wedi gallu darparu £2.5 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf i helpu i liniaru effeithiau'r toriadau mewn cyllid. Mae'r cyllid ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys wedi'i warchod hefyd er mwyn cynnal effaith y gwasanaeth pwysig hwn. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i leihau effaith y toriadau i'r gyllideb ar Gofal a Thrwsio ac mae wedi gwarchod asiantaethau gwasanaethau'r rheng flaen rhag effaith y toriadau yr oedd yn rhaid eu gwneud.

- *Ydy Llywodraeth Cymru'n monitro darpariaeth gwasanaethau addasu'n effeithlon;*

16. Mae'r Dangosydd Perfformiad Statudol a nodwyd uchod yn rhoi gwybodaeth am gyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Hefyd cawsom

wybodaeth fanwl am y gwariant arnyn nhw drwy fwletinau ystadegol y mae Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori'r Llywodraeth yn eu paratoi. Mae addasiadau'n bwnc rheolaidd wrth drafod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phanel Technegol Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru gyfan.

17. Hefyd mae fy swyddogion yn cael diweddariadau ac adroddiadau am gyflenwi'r Rhaglen Addasiadau Brys a niferoedd y bobl sy'n cael help gwasanaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Yn wir, mae'r wybodaeth olaf yn rhan o ddangosyddion olrhain ein Rhaglen Lywodraethu. At ei gilydd, rydyn ni'n casglu llawer iawn o wybodaeth sy'n llywio polisi ar addasiadau ac sy'n ein helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon.

- *Beth arall y mae angen ei wneud i wella gwasanaethau addasu cartrefi yng Nghymru.*

18. Er fy mod i'n cydnabod bod gwasanaethau'n amrywio ledled Cymru, gwnaed gwelliannau i gyflenwi'r gwasanaethau a chredaf fod angen pwysleisio hyn. Rydyn ni mewn sefyllfa well o lawer nag yr oeddem ynddi yn 2006, er enghraifft, ac mae straeon cadarnhaol iawn i'w hadrodd. Ond, rwy'n cydnabod bod angen inni ystyried cyflenwi gwasanaethau ac addasiadau'n gyffredinol. Dyna pam cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, yn y Papur Gwyn ar dai, y byddai adolygiad o'r amrediad o raglenni cymhorthion ac addasiadau i weld a oes lle i wneud gwelliannau pellach.

19. Er i seminar ddigwydd lle bu adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, Gofal a Thrwsio, Therapyddion Galwedigaethol ac eraill â diddordeb yn trafod trefniadau'r ddarpariaeth bresennol, mae'r adolygiad wedi'i ddal yn ôl tan i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gyhoeddi ei ganfyddiadau o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn. Roedd gwneud hyn yn ymddangos yn ddoeth ac yn gall.

20. Un o'r pethau pwysicaf y gellir eu gwneud o ran gwella'r gwasanaeth presennol yw pwysleisio o'r newydd bwysigrwydd gweithio corfforaethol ar ran yr awdurdodau lleol o ran addasiadau. Mae angen inni bwysleisio'r ffaith fod hwn yn fater allweddol a gall fod lle i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gydweithio â ni i gyflwyno'r neges hon yn gryfach. Wrth gwrs, mae meysydd lle mae'r dull corfforaethol angenrheidiol yn gweithio'n dda ac efallai mai dim ond mater o rannu arfer dda ar nifer o lefelau yw hi.

21. Mae straeon cadarnhaol i'w hadrodd ac mae'n llawer rhy hawdd ymhelaethu ar rai agweddau negyddol ar y gwasanaethau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd. Gobeithio y gallwn wneud gwelliannau pellach i'r system bresennol fel bod y gwasanaethau'n cael eu gwella i Ddinasyddion Cymru.

**Carl Sargeant**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**

**Llywodraeth Cymru**

**Papur 2**

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dydd Mercher 17 Ebrill 2013**

**Tai ac Adfywio**

**Y Portffolio**

1. O fewn fy mhortffolio i, rwyf yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â thai, adfywio a chynllunio, gan gynnwys rheoliadau adeiladu.

2. Yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni i'r economi a gwariant cyhoeddus, rwyf i a fy nghyd-Weinidogion yn bwriadu gweithredu er mwyn cyflawni'r pethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth hefyd i'w teuluoedd ac i'n cymunedau – yn awr ac yn y dyfodol.

3. Y cartref sydd wrth galon ein polisïau a'n rhaglenni, ac rwyf yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldeb, gan ddarparu lleoedd deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt.

4. Eir ati yn y Rhaglen Lywodraethu i amlinellu nifer o'r camau penodol yr wyf yn eu cymryd. Mae hefyd yn nodi cerrig milltir a dangosyddion er mwyn asesu'r cynnydd a wnawn wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru.

5. Fel y gwyddoch, mae gennyf atebolrwydd penodol dros sicrhau ein bod ar y trywydd iawn mewn nifer o'r meysydd sydd yn y rhaglen honno - yn fwyaf arbennig y penodau sy'n ymdrin â Thwf a Swyddi Cynaliadwy (1), Cartrefi Cymru (6), Mynd i'r Afael â Thlodi (9), Cymunedau Gwledig (10) a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd (11).

**Blaenoriaethau a Chynnydd**

6. Er nad oes modd ymdrin â phob agwedd ar fy mhortffolio yn y papur hwn, rwyf wedi mynd ati isod i fanylu ar rai o'r blaenoriaethau sydd gennyf, gan ystyried meysydd penodol y mae'r Pwyllgor hwn, a Phwyllgorau eraill, wedi nodi eu bod o ddiddordeb arbennig iddynt.

***Y Bil Tai***

7. Yr hydref hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Bil Tai cyntaf, a gyhoeddwyd yn y Datganiad Deddfwriaethol a wnaeth Prif Weinidog Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2011.

8. Aed ati i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ar draws y sector cyn ac ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Dai (Cartrefi i Gymru) fis mai diwethaf (2012).

http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/housewhitepaper/?skip=1&lang=cy

9. Roedd y Papur Gwyn yn rhestru amryfal newidiadau deddfwriaethol a anneddfwriaethol oedd â'r nod o sicrhau dull o weithredu ar draws y system yn ei chyfanrwydd – mwy o gartrefi, gwell cartrefi a gwell gwasanaethau.

10. Bwriedir i'r Bil ymdrin â meysydd megis: gwella'r gyfraith ar ddigartrefedd; cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer pob landlord ac asiantaeth gosod eiddo yn y sector rhentu preifat; cyflwwyno pŵer i alluogi awdurdodau lleol i godi hyd at ddwbl cyfradd y Dreth Gyngor ar eiddo sy'n wag yn y tymor hir; a dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd swyddogol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os nodwyd bod angen safleoedd o'r fath.

11. Bydd y Bil hefyd yn cynnwys: newidiadau i system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai; cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ar renti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd y llety a ddarperir; a galluogi mwy o ddefnydd o Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a Thai Cydweithredol.

***Y Bil Rhentu Cartrefi***

12. Mae'r Bil hwn yn cyfrannu at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i'w gwneud yn haws i bobl symud rhwng rhentu, perchenogaeth lawn a rhanberchenogaeth.

13. Mae'r Bil yn ymateb i alwadau a wnaed ers tro i ddiwygio'r drefn, a bydd yn creu sail gyfreithiol decach, symlach a mwy effeithlon ar gyfer rhentu cartref.

14. Mae'r cynigion wedi'u seilio'n glos ar argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2006 a buom yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn i'w hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.

15. Bydd dau gontract enghreifftiol statudol a fydd y nodi hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid mewn iaith glir: contract diogel a fydd yn seiliedig ar y denantiaeth ddiogel a gynigir gan awdurdodau lleol, ynghyd â chontract safonol a fydd yn debyg i'r denantiaeth fyrddaliol sicr sydd ar gael ar hyn o bryd.

16. Caiff y Papur Gwyn ar Rentu Cartrefi ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn, ac, yn ôl yr arfer, bydd cyfnod ymgynghori o 12 wythnos wedi hynny. Bwriedir cyflwyno'r Bil gerbron y Cynulliad yn gynnar yn 2015.

***Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)***

17. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai Bil gan Aelod Cynulliad yw hwn, a gyflwynwyd gan Peter Black AC. Amcangyfrifir bod cartrefi symudol yn gartrefi parhaol i oddeutu 5,000 o drigolion Cymru (3,500 o gartrefi ar draws 92 o safleoedd).

18. Nod y Bil yw diwygio'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud â chartrefi symudol, a hynny oherwydd y canfyddiad bod yn gyfraith honno'n aneffeithiol a'i bod wedi dyddio, ac oherwydd hefyd fod camarfer gan berchenogion y safleoedd hyn yn gymharol gyffredin.

19. Ar hyn o bryd, mae'r Bil wedi cyrraedd Cyfnod 2 ar ei daith drwy broses graffu'r Senedd, a chafwyd cytundeb ar yr Egwyddorion Cyffredinol a'r Penderfyniad Ariannol ar 13 Mawrth. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Bil, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r egwyddorion sydd ynddo.

20. Bydd y gwaith craffu Cyfnod 2 ar gyfer y Bil yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 13 Mehefin.

***Cyflenwi rhagor o gartrefi***

21. Ein targed yw darparu 7,500 yn fwy o gartrefi fforddiadwy erbyn 2016 ac, fel y nodir yn ddiweddarach yn y papur hwn, sicrhau bod 5000 o adeiladau gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Darparwyd bron 2,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn 2011/12 a llwyddwyd hefyd yn ystod yr un flwyddyn i sicrhau bod dros 1,000 o adeiladau gwag yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor.

22. Mae'r buddsoddiad yn y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol yn annog mwy o dir cyhoeddus i gael ei ryddhau ar gyfer tai cymdeithasol, ac yn cefnogi Troi Tai'n Gartrefi, ein Menter Eiddo Gwag.

23. Yn ogystal, rydym yn rhoi swm o £6 miliwn yn 2012/13 a'r ddwy flynedd wedi hynny i Bartneriaeth Tai Cymru, a fydd yn darparu dros 800 o gartrefi i'w gosod am renti canolradd.

24. Ar ben hynny, rydym wedi dyrannu cyllid refeniw gwerth £4 miliwn y flwyddyn dros y 30 mlynedd nesaf a fydd yn galluogi cymdeithasau tai i fenthyca dros £140 miliwn er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu dros 1,100 o gartrefi fforddiadwy newydd.

25. Mae'r camau arloesol hyn yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ffyrdd o gynnal buddsoddiad mewn tai, ac maent yn enghraifft glir o'r cydweithio clos rhwng llywodraeth leol, y cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru. Byddant yn fodd i sicrhau y bydd tai fforddiadwy, o ansawdd da, ar gael i nifer o deuluoedd ac unigolion ar draws Cymru.

26. Rydym yn arwain y ffordd o ran defnyddio tir yn effeithiol ac mae tîm wedi'i neilltuo i weithio'n benodol ar ryddhau tir Llywodraeth Cymru ar gyfer tai. Mae gan yr awdurdodau lleol hefyd adnoddau y gallant eu defnyddio. Maent yn berchen ar dir, ac mae rhai ohonynt yn ystyried arloesi ym maes darparu tai drwy ddefnyddio'r tir hwnnw at amryfal ddibenion tai.

27. Darparwyd cyfanswm o 426 o unedau tai fforddiadwy ar dir a ddarparwyd gan y sector cyhoeddus yn ystod 2011-12, ac roedd tua dwy ran o dair o'r unedau hynny ar dir a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol.

28. Rydym yn datblygu tai cydweithredol yng Nghymru hefyd, ac rydym wedi gosod targed uchelgeisiol o sicrhau 500 o gartrefi cydweithredol newydd yn ystod oes y weinyddiaeth hon. Mae un o'r modelau sy'n dechrau dod i'r amlwg ar gyfer perchenogaeth ar dai cydweithredol fforddiadwy yn un arbennig o ddiddorol, ac felly hefyd y dull o ddatblygu sy'n seiliedig ar bentrefi gardd, lle mae'r gymuned a chydweithredu yn gwbl ganolog.

***Troi Tai'n Gartrefi***

29. Fel y nodwyd eisoes, mae ein cynllun "Troi Tai'n Gartrefi" yn gynllun arloesol gwerth £10 miliwn sydd wedi'i anelu at berchenogion eiddo preswyl sydd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy. Mae'r cynllun hwn yn cyfrannu at y targed o sicrhau y bydd 5,000 o adeiladau gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto yn ystod oes y Llywodraeth hon. Mae'n gysylltiedig â'r ymrwymiad ar gartrefi gwag a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu.

30. Yr awdurdodau lleol sy'n rhoi'r cynllun ar waith, gan wneud hynny ar sail ranbarthol sy'n enghraifft wych o gydweithio. Hawliwyd y symiau terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru y mis diwethaf (Mawrth). Disgwylir i'r gyfres gyntaf o fenthyciadau o dan y cynllun fod yn fodd i sicrhau y bydd o leiaf 436 o adeiladau yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor. Mae hwn yn gyfraniad mawr at ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau y bydd 5,000 o adeiladau preswyl gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

31. Rydym hefyd yn gweithio ar gynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer pob landlord ac asiantaeth reoli yn y sector rhentu preifat.

***Polisi Rhenti***

32. Rydym hefyd wedi datblygu polisi newydd ar gyfer rhenti tai cymdeithasol a fydd yn gymwys i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cymdeithasol fel ei gilydd – ac a fydd yn adlewyrchu maint, math, lleoliad ac ansawdd y stoc tai sydd gan landlordiaid.

33. Bydd y polisi rhenti newydd ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael ei roi ar waith yn 2014/15 ac mae'n amodol ar awdurdodau lleol yn gadael system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai.

***Safon Ansawdd Tai Cymru***

34. Mae safon y cartrefi sy'n bodoli eisoes yr un mor bwysig, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n dlawd neu'n agored i niwed. Mae'r buddsoddiad hwn yng nghartrefi pobl yn fuddsoddiad hefyd mewn swyddi, sgiliau a

chymunedau lleol ar adeg pan fo mynd i'r afael â thlodi a chreu swyddi ar frig agenda Llywodraeth Cymru. O'r herwydd, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i bwyso ar bob landlord cymdeithasol i gwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru, a'i gynnal wedyn, erbyn 2020.

***Diwygio Lles***

35. Er gwaethaf y camau yr ydym yn eu cymryd, mae'n bwysig bod yr awdurdodau lleol yn asesu'r effaith a gaiff y diwygiadau hyn ar eu cymunedau lleol. Mae angen iddynt wneud hynny er mwyn pwyso a mesur sut ac i ba raddau y mae angen iddynt weithredu.

36. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r flwyddyn ariannol hon, rydym wedi darparu £1.5 miliwn i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i weithredu er mwyn helpu pobl i ddygymod â'r newidiadau. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y rhaglen gymorth i awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

37. Gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, rydym hefyd wedi rhoi swm o £120,000 i raglen ymchwil genedlaethol a fydd yn ystyried effeithiau cymdeithasol a demograffig y newidiadau, a hynny er mwyn i ni fedru deall yr effeithiau hynny'n well a theilwra cymorth fel y bo modd i ni helpu pobl.

38. Mae angen i'r awdurdodau lleol ystyried effaith gronnus y diwygiadau hyn. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu y bydd economïau lleol yn colli rhwng £1.00 a £1.50 o incwm yn sgil pob £1 o incwm a gollir gan bobl leol.

39. Heblaw hynny, mae ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn awgrymu y bydd y dreth ar ystafelloedd gwely yn debygol o gael mwy o effaith mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol, gan effeithio ar gyfran fwy o denantiaid.

40. Mae hyn yn golygu y bydd angen i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig weithio'n galetach i liniaru effaith y dreth ar ystafelloedd gwely, a hynny oherwydd bod llai o ddewisiadau tai priodol ar gael i denantiaid mewn ardaloedd gwledig.

***Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid***

41. Cafodd y fframwaith adfywio newydd, ‘Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', ei lansio ar 11 Mawrth ac mae'n benllanw 18 mis o ymchwil, ac o ymgysylltu ac ymgynghori â phobl yn y maes adfywio yng Nghymru a thu hwnt.

    http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/regeneration/vvpframework/?skip=1&lang=cy

42. Y weledigaeth a amlinellir yn y fframwaith yw y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da .

43. Rydym wedi pennu canlyniadau cenedlaethol newydd ar gyfer adfywio, sy'n cyd-fynd â chanlyniadau’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf: cymunedau ffyniannus, cymunedau sy'n dysgu a chymunedau iachach. Mae'r fframwaith yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd partneriaeth, strategaeth a datblygu cynaliadwy.

44. Mae wedi cael cefnogaeth holl aelodau'r Cabinet. Mae'n hyrwyddo dull o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan gyfuno cymorth ar gyfer pobl â chymorth ar gyfer lleoedd, ac mae'n annog y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i weithio mewn partneriaeth.

45. Rydym am fanteisio i'r eithaf ar bob punt o'r cyllid prif ffrwd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar wasanaethau megis iechyd ac addysg. At hynny, bydd buddsoddiad adfywio dwys yn cael ei dargedu mewn nifer bach o leoedd allweddol er mwyn cefnogi twf lleol mewn canol trefi, mewn cymunedau arfordirol ac mewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

46. Rydym wrthi bellach yn gweithio ar y canllawiau manwl a fydd yn amlinellu sut y gall partneriaethau lleol wneud cais am fuddsoddiad a dargedir.

***Cynllunio***

47. Mae’r gwaith sylweddol o ddiwygio’r system gynllunio eisoes ar waith. Ers datganoli, mae polisïau cynllunio cenedlaethol wedi cael eu diweddaru a’u rhoi ar waith. Mae’r polisïau hyn yn gweddu i anghenion Cymru, ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau datblygu cynaliadwy, adfywiad economaidd a chartrefi fforddiadwy. Er mwyn hwyluso’r gwaith hwn yn lleol, cyflwynwyd system cynlluniau datblygu lleol newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar hyn o bryd i wella'r broses ceisiadau cynllunio.

48. Bydd y Bil Diwygio Cynllunio yn gyfle i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda ddiwygio. Yn y gorffennol, bu'n rhaid i ni ddibynnu'n bennaf ar Filiau'r DU, ar is-ddeddfwriaeth ac ar bolisi a chanllawiau er mwyn ysgogi newidiadau. Mae'r gallu i greu ein deddfwriaeth sylfaenol ein hunain yn gyfle newydd y dylem fanteisio arno i'r eithaf.

49. Mae’n rhaid seilio deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar dystiolaeth. Aed ati i greu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a fydd yn sail i'r Papur Gwyn ar Gynllunio ac i'r Bil Diwygio Cynllunio. Caiff y Papur Gwyn a'r Bil drafft eu cyhoeddi cyn diwedd 2013.

50. Ar berwyl arall, roeddwn yn falch bod swyddogion o’r Is-adrannau Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, a Chynllunio wedi gallu rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i’r Pwyllgor fis diwethaf ynglŷn ag Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru – lle mae lefel a graddfa datblygiadau tai mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn fater i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

***Adeiladu***

51. Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gryfhau rheoliadau adeiladu er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni o 55% o’i gymharu â safonau adeiladu 2006, sy’n gyfystyr â 40% o’i gymharu â safonau 2010. Mae targedau ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladau yn gysylltiedig â gofynion deddfwriaethol Ewropeaidd a fydd yn orfodol ar gyfer pob un o wladwriaethau Ewrop o 2021 ymlaen.

52. Yn ein cynigion ymgynghori diweddar mewn perthynas â newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, ystyriwyd dau opsiwn ar gyfer lleihau allyriadau carbon mewn cartrefi newydd, naill ai gostyngiad o 40% yn yr allyriadau hynny o fis Ionawr 2015 ymlaen, neu ostyngiad o 25% o 2014 ymlaen, o'u cymharu â'r Safonau Rhan L a bennwyd yn 2010. Roedd yno gynigion hefyd ar gyfer gwelliant o 20%, 10% neu 11% yn y lefelau ar gyfer adeiladau newydd annomestig o'u cymharu â'r Safonau Rhan L a bennwyd yn 2010.

53. Cawsom 91 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Aed ati i'w dadansoddi ac fe'u cyflwynwyd i Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ar 24 Ionawr 2013. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion a rhoddwyd nifer o gamau ar waith yn sgil y cyfarfod hwnnw a bydd swyddogion yn mynd ati i ddatblygu rhagor o gynigion yn ymwneud â Rhan L, gan wneud hynny ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad.

54. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn modelu hyfywedd mewn perthynas ag effaith yr opsiynau 25% a 40% ac mewn perthynas â chynnwys systemau chwistrellu mewn cartrefi newydd. Cafodd Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) ei gyflwyno ym mis Ebrill 2011. Ar hyn o bryd, yr amserlen ar gyfer cyflwyno systemau atal tân (chwistrellwyr) yw mis Medi 2013, a byddwn yn mynd ati cyn hynny i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y manylion gweithredu.

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Ebrill 2013

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Paper 3

Communities, Equality and Local
Government Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

18th March 2013

**Re: Inquiry into Home Adaptations**

Dear Committee Members

Thank you for the recent opportunity to provide oral evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee's Inquiry into Home Adaptations. During the session I promised to provide further written information on two specific areas; namely the current ddiscrepancies in access to adaptations between different tenures and also the good practice that local authorities shared with me in recent written correspondence.

In relation to the current discrepancies across tenures, I expressed my concerns in my earlier written evidence about the complexity of the current system within which aids and adaptations services are funded and delivered. Adaptation services have developed from a range of different pieces of legislation, supplementary orders and guidance and new policies which have been introduced to improve parts of the system over time. The inconsistencies and inequalities in the current arrangements have created a disjointed and complex system where access to resources is dictated by housing tenure.

Differences in the way that various funding streams are administered and implemented, depending on local policies and decisions, create a serious risk that people with complex needs will fall through one of these funding

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

gaps. For the older person trying to access the help they need, navigating this complex web of eligibility criteria can act as a significant barrier.

I am concerned that current arrangements are not conducive to developing a common sense solution to the needs of an individual but instead are directed by the access to a particular funding route. I would therefore strongly welcome any move towards a simplified, tenure blind approach to adaptations that is more focussed on meeting the needs of the individual. This need not necessarily equate to the introduction of one single system or delivery mechanism, but should ensure that eligibility for, and access to, adaptations is based on need, rather than housing tenure. This approach would mirror other support services, including the recent changes to the Supporting People Programme, which reflect more needs based approach in relation to eligibility.

In relation to the good practice, I have attached for your information a list of initiatives that local authorities shared with me during recent correspondence on DFG delivery times. I have classified this into a number of common themes including joint working, use of resources, the customer experience, process issues and alternatives to DFG provision. I would take the opportunity to reinforce the point I made at the oral evidence session; that much of this should, in fact be regarded as standard practice if we are to move to a position where if an older person needs aids and adaptations in their home to help them stay safe and independent, they will be assured that they will get the help they need on a timely basis in a way that suits the life that they lead and the things that they want to do.

I hope you find this supplementary information useful. Please let me know if I can be of any further assistance. I look forward to hearing the outcomes of the Committee's inquiry.

Yours sincerely



**Older People's Commissioner for Wales**

# Aids and Adaptations

# List of good practice provided by Welsh local authorities – December 2012

**Joint Working**

- Co-location of OTs with grant officers has reduced waiting list from two years in 2010 to two months
- Council has employed on a trial basis an adaptations coordinator to bridge OT and adaptations teams.
- Invested in additional OT support to speed up the assessment process
- Managed by an integrated disabled person's service including surveyors, OTs.
- Close links with RSLs who delivery PAGs
- Workshop bringing together officers from social services and housing
- Monthly meetings between Housing and OT
- Joint working between housing and OTs (colocation)
- Reorganisation of OT into a single service team
- Officer seconded to Housing Renewal Team
- Good joint working with OTs
- Close partnership with C&R (co-located with the council).

**Use of resources**

- Acknowledged timescales need to be reduced and have invested officer time and financial resources. This has reduced delivery time from 809 to 399 over three years.
- Cabinet considering proposals for additional resources

- Funding to Care and Repair
- Provision of sufficient capital to adaptations even in financially challenging times – no applicant has to wait for grant assistance as a result of lack of funds
- Recycling of equipment
- Living Independently Home Repair Grant tackles other works of repair e.g. roofs or electrics at same time as DFG.
- Strong financial support, consistent capital allocation

**Customer experience**

- Recently started monitoring feedback from clients, for example 82% of people who received a DFG felt it helped them stay independent.
- Telephone based enquiry service and home visit options for applicants
- In house agency service to hand hold applicants through the process.
- Early draft means test to give potential applicants a very early indication of any financial contribution
- Root and Branch review in 2007 to identify process efficiencies, streamline customer journey. Reduced from 500+ days to 175 days
- Customer satisfaction levels high (95%)
- Home visits

**'Process' issues**

- Changes to Housing Renewal Policy specifically aimed at reducing delivery times over the next 12 months.
- Partnership with LSVT with a panel to consider applications for adaptations, including moving to a new property.
- Tighten up on targets for each step of DFG process
- Joint pre-referral visit by housing surveyor and OT to ensure any recommendations are reasonable and practical
- Fast track procedure for urgent cases
- Prioritisation system to deal with most urgent cases first
- Using surveyors as assessors to reduce OT waiting times

- More accurate recording
- Fast track stair like service for palliative care
- Refining application process
- E-referal process from OT to grants team
- Dedicated team with specialist OTs
- Fast track for priority cases

**Alternatives to DFG**

- Minor works commissioned separately
- Prioritising hospital discharge for minor adaptations
- Partnership with Care and Repair to deliver minor adaptations and the RRAP programme (average time 4 days)
- Safety at Home Scheme: partnership between OT and C&R (delivered 454 minor adaptations last year, average time 6 days)
- Discretionary relocation grant via Pathways to Adapted Housing Register
- Minor adaptations Grant for less than £2k (average 59 days)
- Financial incentive to move
- 11 days to deliver minor adaptations
- Loans and grants for other repairs and improvements

**Contractors / building work**

- Recently re-tendered for building contractors
- Framework contract with local contractors – with agreed timescales and schedule of rates
- Approved contractor agreements.
- One experienced local architect
- Joint feasibility visits OT and grants
- Expert local contractors
- Schedule of rates (removed tendering)
- In house grant agency
- Registered Builders Scheme – advice on sourcing a builder

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon